



Arolwg Bodlonrwydd Tenantiaid 2022

Am beth mae'r arolwg?

Mae'r arolwg yn debyg i arolygon eraill yr ydym wedi'u cynnal yn y gorffennol ac mae'n seiliedig ar gwestiynau safonol a ddefnyddir gan landlordiaid eraill ac mae'n ymgorffori'r cwestiynau Bodlonrwydd Tenantiaid y mae'n rhaid adrodd arnynt i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Am beth y dylwn i fod yn cadw llygad?

Ym mis Tachwedd bydd tenantiaid yn derbyn amlen yn cynnwys llythyr eglurhaol wedi'i argraffu ar bapur pennawd Grŵp Cynefin, holiadur ac amlen ateb busnes gyda'r gost am ei phostio wedi ei thalu. Bydd manylion ar sut i gwblhau'r arolwg ar-lein hefyd yn cael eu cynnwys yn y llythyr eglurhaol, a bydd cod QR yn cael ei argraffu ar flaen yr holiaduron. Bydd Acuity hefyd yn e-bostio trigolion gyda dolen i gwblhau'r arolwg ar-lein.

Ychydig wythnosau'n ddiweddarach bydd Acuity hefyd yn ffonio tua 400 o denantiaid i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan. Bydd unrhyw un sy'n cwblhau'r arolwg yn cael ei gynnwys mewn raffl fawr a fydd yn cael ei gweinyddu gan Acuity.

Ydi'r arolygon yn gyfrinachol ac yn ddienw?

Mae'r arolygon yn gwbl gyfrinachol ac os yw tenant yn gofyn, gellir rhoi'r canlyniadau yn ôl i Grŵp Cynefin yn ddienw heb ei enw/ ei henw ynghlwm, os yw'r tenant yn dymuno aros yn ddienw.

A yw'r arolygon yn cydymffurfio â diogelu data, a beth am safonau ansawdd?

Mae Acuity yn aelod partner cwmni o'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ac wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ni chaniateir iddo ryddhau unrhyw fanylion i unrhyw sefydliad arall. O dan y Ddeddf Diogelu Data ni chaniateir i Acuity ryddhau unrhyw wybodaeth a fyddai'n caniatáu i unigolyn gael ei adnabod heb ei ganiatâd gweithredol ymlaen llaw i wneud hynny. Mae Acuity hefyd yn meddu ar ISO20252: 2019, sef y safon ansawdd ar gyfer cwmnïau ymchwil marchnad; ac mae'n meddu ar Cyber Essentials Plus.

Sut mae'r arolwg yn gyfrinachol?

Mae Acuity yn defnyddio codau adnabod unigryw ar gyfer pob arolwg post i sicrhau cyfrinachedd yr holiaduron a gwblhawyd; dim ond y llythyr eglurhaol sy'n dangos enw a chyfeiriad y tenant. Nid yw'n bosibl adnabod unigolyn o holiadur wedi'i gwblhau. Dychwelir yr holiaduron yn uniongyrchol i Acuity trwy amlen Rhadbost a chaiff y data ei ailgysylltu. O dan y Ddeddf Diogelu Data ni chaniateir i Acuity ryddhau unrhyw wybodaeth a fyddai'n caniatáu i unigolyn gael ei adnabod heb ei ganiatâd gweithredol ymlaen llaw i wneud hynny.

Os byddwch chi'n cwblhau'r arolwg ar-lein neu fel rhan o'r arolwg ffôn, mae gennych chi'r opsiwn i aros yn ddiennw ar ddiwedd yr arolwg.

Beth sy'n digwydd i'r holiaduron ar ôl yr arolwg?

Mae'r holl holiaduron a ddychwelir atom yn cael eu storio mewn warws diogel am 3 mis, ac ar ôl y cyfnod hwn cânt eu dinistrio'n ddiogel. Cedwir copi wedi'i sganio o'r holiaduron a gwblhawyd hefyd am 12 mis.

Gyda phwy y dylwn gysylltu yn Grŵp Cynefin neu Acuity os oes gennyf ymholiad nad yw'n cael ei ateb yma?

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am unrhyw un o'r arolygon, cysylltwch ag Ann Vaughan Jones yn Grŵp Cynefin (ann.vaughan@grwpcynefin.org) neu Heather Metivier yn Acuity ar 01865 594332 neu acuity@arap.co.uk.

Pwy yw Acuity?

Mae Acuity Research & Practice (Acuity) yn darparu arolygon boddhad tenantiaid a gwasanaethau meincnodi, gan helpu darparwyr tai i wella gwasanaethau ac ymgysylltu â'u tenantiaid trwy ddealltwriaeth o ddata boddhad, perfformiad a phroffilio. Maent wedi bod yn darparu gwasanaethau ymgynghori i'r sector tai cymdeithasol ers dros 24 mlynedd.

Eisiau gwybod mwy am Acuity?

Acuity Research & Practice Limited, www.arap.co.uk UK Ffôn: 01273 287114

Mae pob prosiect ymchwil yn cael ei gynnal yn unol ag ISO20252:2019 a Chod Ymddygiad MRS.

Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 3503391

